# 1. Trosolwg o'r Astudiaeth


Mawrth 2019













Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ARUP

# Cynnwys

Tudalen

**1 Trosolwg o'r Astudiaeth 1**

1.1 Yr Adroddiad hwn 1
1.2 Cyd-destun y FfDC 1
1.3 Diben yr Astudiaeth hon 2
1.4 Ymagwedd ac Adroddiadau 2
1.5 Cyfraniad Arup 4

# 1 Trosolwg o'r Astudiaeth

## 1.1 Yr Adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o Astudiaeth Rhanbarthau ac Ardaloedd Gwledig y FfDC, a'r ymagwedd a ddefnyddiwyd i adrodd ar ei chanfyddiadau. Mae'r adroddiad:

a) Yn gosod cyd-destun yr ymchwil;

b) Yn amlinellu diben yr astudiaeth hon;

c) Yn esbonio'r ymagwedd at yr Astudiaeth a ble y gellir dod o hyd i'w chanfyddiadau; ac

ch) Yn disgrifio cyfraniad Arup at yr Astudiaeth.

## 1.2 Cyd-destun y FfDC

Mae Llywodraeth Cymru yn paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) ar gyfer Cymru. Bydd y FfDC yn gynllun datblygu ar gyfer Cymru gyfan, ac yn disodli Cynllun Gofodol Cymru pan gaiff ei gyhoeddi ym mis Medi 2020. Bydd yn amlinellu polisïau cynllunio cenedlaethol ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf ac yn mynegi amcanion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol tymor hir Llywodraeth Cymru yn ofodol.

Bydd y FfDC yn rhan o'r cynllun statudol ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio a bydd yn helpu i benderfynu ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Yn dilyn yr ymgynghoriad ar yr Opsiwn a Ffefrir ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) yn ystod yr haf 2018[1], mae Llywodraeth Cymru bellach wrthi'n datblygu'r FfDC Drafft ac yn bwriadu cynnal ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2019.

Fel y nodir yn yr Opsiwn a Ffefrir, bwriedir i'r FfDC gynnwys polisïau cenedlaethol a rhanbarthol ar draws y rhanbarthau diffiniedig. Bydd y tri rhanbarth yn cwmpasu Gogledd, Canolbarth a De-orllewin a De-ddwyrain Cymru, fel y dangosir yn Ffigur 2. Mae hyn yn adlewyrchu'r tri rhanbarth a nodwyd gan Gynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar yr Economi.

Mae Prif Swyddogion Rhanbarthol wedi'u penodi ar gyfer pob rhanbarth ac maent wedi dechrau ar waith i ddatblygu ymagwedd Llywodraeth Cymru at wella gweithio a chyflawni'n rhanbarthol.

Mae'r Ddeddf Cynllunio yn hwyluso'r ymagwedd hon ac yn darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol yn rhanbarthol. O safbwynt rhanbarthol, mae rôl y FfDC yn cynnwys cefnogi cyflawni polisïau rhanbarthol Llywodraeth Cymru a chynllunio / cydweithredu strategol gwell rhwng Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) Cymru.

Dangosir y rhaglen ar gyfer y FfDC yn Ffigur 3, sy'n cynnwys:

[1] https://llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-y-prif-faterion-opsiynau-ar-opsiwn-a-ffefrir?_ga=2.220801752.116188421.1557304865-613136503.1479996126

- Ymgynghoriad ar y FfDC Drafft y bwriedir ei gynnal rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2019; ac
- Ystyried y Drafft gan y Cynulliad rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2020.

## 1.3 Diben yr Astudiaeth hon

Dyma amcanion yr Astudiaeth Ymchwil Rhanbarthau ac Ardaloedd Gwledig hon:

a) Datblygu sylfaen dystiolaeth ar gyfer pob rhanbarth FfDC sy'n cefnogi datblygu polisïau'r FfDC, a defnyddio hyn i amlygu'r materion a'r ardaloedd gofodol y dylai polisïau'r FfDC ganolbwyntio arnynt;

b) Amlygu ardaloedd gwledig eang a datblygu sylfaen dystiolaeth sy'n cefnogi datblygu polisïau'r FfDC, a defnyddio hyn i amlygu'r materion a'r ardaloedd gofodol y dylai polisïau'r FfDC ganolbwyntio arnynt; a

c) Chynnwys rhanddeiliaid yn 'a' a 'b'.

Mae dwy ran i'r gwaith ymchwil hwn[2]:

1. Rhan 1 – Dadansoddiad Llinell Sylfaen a SWOT Rhanbarthol[3] i Gefnogi Datblygu Polisïau'r FfDC; a
2. Rhan 2 – Amlygu Ardaloedd Gwledig Eang a Dadansoddiad SWOT i Gefnogi Datblygu Polisïau'r FfDC.

Mae'r ymchwil yn cwmpasu Cymru gyfan ac ystod eang o feysydd polisi posibl.

Gwaith ymchwil lefel uchel yw hwn ac ni fwriedir iddo ddarparu tystiolaeth a chefnogi datblygu polisi ar gyfer pob lefel.

Mae haenau cynllunio rhanbarthol a lleol yn gyfrifol am ddatblygu tystiolaeth a pholisïau sy'n briodol i'w lefel nhw.

Fodd bynnag, bydd y FfDC yn cyfrannu at gefnogi cynllunio rhanbarthol a Chynlluniau Datblygu Strategol ledled Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn awyddus, trwy'r gwaith ymchwil hwn, i ddeall yr hyn y gall y system gynllunio ei wneud trwy'r FfDC i gefnogi ardaloedd gwledig.

## 1.4 Ymagwedd ac Adroddiadau

I helpu i gyflawni amcanion yr astudiaeth, cynhyrchodd Ove Arup & Partners (Arup), a gomisiynwyd i gynnal yr Astudiaeth hon, gyfres o adroddiadau sy'n mynd i'r afael â gofynion yr astudiaeth.

Crynhoir y rhain yn Tabl 1 isod:

---

[2] Darparwyd gofynion yr astudiaeth i Arup mewn dogfen Manyleb. Llywiodd y ddogfen honno gynnig Arup ar gyfer yr ymchwil, a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2018.
[3] Ni fwriedir i ofynion datblygu polisïau FfDC a Dadansoddiad SWOT y gwaith hwn amlygu a mynd i'r afael â phob mater ar bob lefel. Yn hytrach, bwriedir iddynt gefnogi'r broses o ddatblygu polisi cynllunio cenedlaethol lefel uchel a darparu cyfeiriad ar gyfer cynllunio rhanbarthol.

Tabl 1 Ymagwedd ac Adroddiadau'r Astudiaeth

| Allbwn | Adroddiadau | Cynnwys |
|---|---|---|
| **Trosolwg o'r Astudiaeth** | 1. Trosolwg o'r Astudiaeth | a) Cyd-destun y FfDC, diben yr astudiaeth a'r adroddiadau, cyfraniad Arup |
| **Adroddiad Data a Diffiniadau** | 2. Adroddiad Data a Diffiniadau | b) Cyflwyniad, gan gynnwys y cyd-destun, diben yr astudiaeth a'r adroddiadau, a'r strwythur<br>c) Casglu data, gan gynnwys ymagwedd, dull, cydweithio, canfyddiadau, adborth gan randdeiliaid, sut y defnyddiwyd data yn yr ymchwil gyda thablau a mapiau<br>ch) Diffinio 'Mawr' – gan gynnwys safleoedd cyflogaeth, safleoedd manwerthu/masnachol, gorsafoedd cynhyrchu a chynlluniau trafnidiaeth<br>d) Diffinio a mapio aneddiadau allweddol<br>dd) Rhanbarthau cydffiniol yn Lloegr<br>e) Diffinio Ardaloedd Gwledig<br>f) Ystyried y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol<br>ff) Crynodeb o'r Astudiaeth |
| **Adroddiadau Gweithdy** | 3. Adroddiad Gweithdy Rhanbarthol – Gogledd Cymru<br>4. Adroddiad Gweithdy Rhanbarthol – Canolbarth a De-orllewin Cymru<br>5. Adroddiad Gweithdy Rhanbarthol – De-ddwyrain Cymru<br>6. Adroddiad Gweithdy Gwledig – Gogledd Cymru<br>7. Adroddiad Gweithdy Gwledig – Canolbarth a De-orllewin Cymru<br>8. Adroddiad Gweithdy Gwledig – De-ddwyrain Cymru | g) Yr ymagwedd at gynnwys rhanddeiliaid<br>ng) Trefniadau a mynychwyr y gweithdai<br>h) Canlyniadau gweithgareddau<br>i) Crynodeb o'r adborth gan randdeiliaid |
| **Adroddiadau SWOT**[4] | 9. Adroddiad SWOT Rhanbarthol<br>10. Adroddiad SWOT Gwledig | l) Yr ymagwedd at SWOT<br>ll) Adborth gan randdeiliaid<br>m) Dilysu data<br>n) Dadansoddiad SWOT<br>o) Rôl y FfDC wrth gefnogi a mynd i'r afael â SWOT, gan ystyried cydberthnasoedd a ffyrdd o weithio<br>p) Crynodeb o'r hyn y dylai'r FfDC ei wneud i gefnogi / mynd i'r afael â SWOT mewn rhanbarthau ac ardaloedd gwledig |

[4] Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (SWOT)

Fel cyfres o ddogfennau, dylid darllen yr Adroddiad Data a Diffiniadau ochr yn ochr â'r Adroddiadau Gweithdy a SWOT cysylltiedig i gael dealltwriaeth gynhwysfawr o ganlyniadau a chanfyddiadau'r ymchwil.

Mae'r holl allbynnau sy'n ffurfio'r gyfres o adroddiadau ar gyfer yr astudiaeth yn darparu cyd-destun a phwrpas ac yn croesgyfeirio i'w gilydd fel y bo'n briodol.

Yn arbennig, mae'r Adroddiad Data a Diffiniadau yn esbonio'r ymagwedd at yr astudiaeth a'r dulliau adrodd yn glir, gan roi trosolwg o'r allbynnau gyda'i gilydd fel y bo'r angen.

Mae adroddiadau'r astudiaeth wedi cael eu cyhoeddi ar wefan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru ar wahân ac ochr yn ochr â'i gilydd[5].

## 1.5 Cyfraniad Arup

Dewisodd Llywodraeth Cymru dîm penodol o arbenigwyr yn Arup i gynnal y gwaith ymchwil pwysig hwn. Rhoddir siart sefydliadol o dîm y prosiect yn Ffigur 1. Roedd strwythur tîm y prosiect yn cynnig tîm amlddisgyblaethol o arbenigwyr ymchwil a pholisi, yn gweithio ochr yn ochr ag arbenigwyr ar GIS, materion digidol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Cynigiodd y tîm brofiad dadansoddol ac ymarferol o gasglu data, dadansoddi gofodol, datblygu polisi a chreu cynlluniau.


Mae Arup wedi cwblhau llawer o gomisiynau ymchwil tebyg, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill (e.e. y Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio neu Lywodraeth yr Alban). Roedd y tîm a ddewiswyd ar gyfer y prosiect yn cynnig profiad ymchwil helaeth, gan weithio ledled y Deyrnas Unedig ar ran sefydliadau cyhoeddus a phreifat, a sefydliadau'r trydydd sector.

Roedd cynnwys Kieron Hyams (Cyfarwyddwr y Prosiect), Corinne Swain OBE (Cymrawd Arup) a Paul Milbourne (Pennaeth yr Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio, Prifysgol Caerdydd) fel ymgynghorwyr arbenigol yn cynnig profiad heb ei ail o ymchwil cynllunio strategol ar lefel llywodraeth, gan fod yr arbenigwyr wedi gweithio'n helaeth i Lywodraeth Cymru, ac yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon i'r Llywodraeth Genedlaethol. Yn ogystal, mae David Brown (Arweinydd Ymchwil) ac Allan Pitt (Arweinydd Polisi a Rhanddeiliaid) wedi cynnal sawl astudiaeth ymchwil flaenorol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Maent hefyd wedi gweithio'n agos gydag RTPI Cymru yn ddiweddar, gan ddatblygu'r Pecyn Cymorth Gwerth Cynllunio.


Mae gan Arup rwydwaith lleol a byd-eang arobryn o arbenigwyr GIS sy'n gweithio yn unol â safonau'r diwydiant ar brosiectau amlddisgyblaethol ar draws pob sector a phob cam datblygu prosiect o gynllunio i weithredu. Wrth gyflawni'r gwaith hwn, gweithiodd arbenigwyr GIS a Gwe Arup yn agos gyda thîm ystadegau Llywodraeth Cymru i helpu sicrhau bod y canlyniadau terfynol wedi'u teilwra i'n dyheadau i wneud data ar gael i bawb, gan ddefnyddio'r Porth Lle[6] pan oedd hynny'n ymarferol.

[5] https://gweddill.gov.wales/topics/planning/national-development-framework-for-wales/?skip=1&lang=cy
[6] http://lle.gov.wales/home?lang=cy


Darparodd Trosol wasanaethau cyfieithu i'r Gymraeg trwy gyfieithu deunyddiau ymchwil ac allbynnau'r astudiaeth a chyfieithu ar y pryd mewn digwyddiadau gweithdy.




Ffigur 1 Siart Sefydliadol Tîm y Prosiect




Ffigur 2 Rhanbarthau'r FfDC




Ffigur 3 Llinell amser y FfDC